Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.03.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Abermaw

Mae 35 o fusnesau wedi cyfarfod â 160+ o ymgeiswyr am waith, gyda thros 120 o gynigion gwaith wedi eu gwneud, yn ffeiriau swyddi Gwaith Gwynedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bydd Gwaith Gwynedd – mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) – yn cynnal ffair swyddi ar gyfer pob sector yn Byw'n Iach Pafiliwn – Canolfan Hamdden, Abermaw, LL42 1NF, ar 5 Ebrill 2022 (10:00am-2:00pm). Bydd ffeiriau hefyd yn cael eu cynnal yn Nolgellau, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Thywyn (dyddiadau a lleoliadau i'w cadarnhau).

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch, gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# CYFLOGAETH: Busnes Cymru – Yn Gefn i Chi

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth recriwtio a chymorth ariannol penodol i helpu cyflogwyr i greu cyfleoedd newydd i bobl ifanc ymuno â'u tîm drwy brofiad gwaith, lleoliadau gwaith neu gyflogaeth gan gynnwys y Gwarant i Bobl Ifanc, Twf Swyddi Cymru+ a GO Wales. Gellir gweld llyfryn newydd sy'n rhoi manylion y cymorth recriwtio a hyfforddi sydd ar gael ar:

https://bit.ly/3I76o1u

Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/yn-gefn-i-chi

# DIGWYDDIADAU: Gweminarau Busnes Cymru

Mae gan Busnes Cymru ystod o weminarau ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf, yn cynnwys cychwyn busnes, trethi a chadw llyfrau a thendro. Byddant hefyd yn cynnal nifer o Sesiynau Arbenigol; Gofal Plant, Amrywiaeth a Chyfreithiol. Am fwy o wybodaeth ac i archebu lle ewch i Ddigwyddiadur Busnes Cymru ar:

https://wales.business-events.org.uk/cy/

# RHEOLIADAU: Priodasau sifi a phartneriaethau sifil yn yr awyr agored

Bydd mesurau dros dro a gyflwynwyd yn ystod y pandemig i ganiatáu cynnal seremonïau priodas sifil a phartneriaeth sifil yn yr awyr agored mewn lleoliadau trwyddedig yng Nghymru a Lloegr yn parhau am gyfnod amhenodol. Erbyn hyn, gall cyplau gael y seremoni gyfan y tu allan ar dir lleoliad trwyddedig. Mwy am hyn ar:

https://www.gov.uk/government/news/outdoor-civil-weddings-and-civil-partnerships-made-permanent

## ARIANNU: Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cynlluniau ar gyfer y gyllideb Ymchwil a Datblygu (R&D) fwyaf erioed

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cyllideb R&D gwerth £39.8 biliwn ar gyfer 2022-2025 yn helpu i gyflawni Strategaeth Arloesi'r llywodraeth ac yn hyrwyddo'r uchelgeisiau fel uwchbŵer gwyddoniaeth. Mae mwy am hyn ar:

https://www.gov.uk/government/news/government-announces-plans-for-largest-ever-rd-budget

## DIGWYDDIAD: 'Hot Topics for International Trade' – 31 Mawrth 2022

Cynhelir digwyddiad ar-lein rhyngweithiol am ddim i holl fusnesau Gogledd Cymru a Swydd Gaer – 'Hot Topics for International Trade' -ar 31 Mawrth 2022 (9:30am-11:00am). I archebu lle, cysylltwch â Hayley Gray ar:

E-bost: h.gray@wcnwchamber.org.uk
Tel: 01244 669985

## CYFLOGAETH: Cyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2022

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Ebrill 2022. Ar gyfer gwybodaeth am y cyfraddau newydd, ewch i:

https://www.gov.uk/cyfraddau-isafswm-cyflog-cenedlaethol

Mae CThEM yn cynnig gweminarau byw i esbonio'r codiadau yn y gyfradd sydd ar y gweill, gan gynnwys pryd yn union y dylech ddechrau talu'r cyfraddau newydd. Mae mwy o wybodaeth am y dyddiadau, amseroedd a manylion cofrestru ar:

https://register.gotowebinar.com/rt/2657727832381365515

# BREXIT: Safonau bwyd – labelu a chyfansoddion

Mae canllawiau wedi'u diweddaru ynghylch y safonau cyfreithiol ar gyfer labelu a chyfansoddion cynhyrchion bwyd fel dŵr potel, llaeth a chig i'w gweld ar:

https://www.gov.uk/guidance/food-standards-labelling-durability-and-composition

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru